



Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 Ardal Leol a Chymuned

30 Tachwedd 2017
SB 67/2017

Yn 2016-17, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau ynghylch boddhad ag ardal leol, a oedd synnwyr o gymuned yn yr ardal, pa mor ddiogel oedd pobl yn teimlo ar ôl iddi dywyllu, barn pobl am ei awdurdod a chynghorydd lleol. Mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) a amlygwyd yn yr adroddiad ar [Llesiant Cymru](#).

Canfddiadau Allweddol



85% yn
fodlon gyda'u
hardal leol fel
lle i fyw

- Yn gyffredinol, roedd pobl hŷn yn fwy bodlon gyda'u hardal leol: roedd 92% o'r rhai 75 oed neu hŷn yn fodlon, o gymharu â 77% o'r rhai 16-24 oed.



50% yn
cytuno bod yno
gydlyniant
cymunedol da

- Roedd rhan fwyaf o bobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal leol (72% yn cytuno), bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda (72%), a bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (73%).



73%
yn teimlo'n
ddiogel ar ôl
iddi dywyllu

- Roedd 80% yn teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain yn eu hardal leol, 97% yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, 79% yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a 97% yn teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car ar ôl iddi dywyllu.



20% yn teimlo eu
bod yn gallu dylanwadu
ar benderfyniadau sy'n
effeithio ar eu hardal leol

- Roedd 48% yn meddwl bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Dywedodd 33% bod eu cyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut oedd yn perfformio. Roedd 35% yn meddwl bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol.
- Roedd 16% wedi cysylltu â chynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf gydag ymholiad, cwyn neu broblem.

Y datganiad hwn

Cyhoeddwyd canlyniadau cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17 ym mis Mehefin 2017. Mae'r bwletin hwn yn edrych ar ganlyniadau **ardal leol a chymuned** yn fanylach. Mae hefyd yn cymharu canlyniadau ar draws y blynyddoedd.

Mae'r [holiadur llawn](#) ar gael ar ein gwefan.

Ceir rhagor o dablau canlyniadau [yma](#).

Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad	2
Boddhad ag ardal leol	3
Cydlyniant cymunedol	7
Diogelwch cymunedol	19
Gwasanaethau awdurdod lleol	29
Cynghorydd lleol	35
Termau a diffiniadau	38
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	41

Cyflwyniad

Mae'r bwletin hwn yn dadansoddi canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud â'r ffordd mae pobl yn teimlo am eu hardal leol. Mae hyn yn cynnwys sylwadau am y bobl yn eu hardal, pa mor ddiogel maen nhw'n teimlo yn yr ardal, eu barn am wasanaethau'r cyngor, faint o ddylanwad maen nhw'n teimlo sydd ganddyn nhw dros benderfyniadau am eu hardal a'u cynghorydd lleol.

Mae rhai o'r cwestiynau sy'n cael eu dadansoddi yn y bwletin hwn yn bwydo i mewn i'r [dangosyddion cenedlaethol](#), sy'n mesur cynnydd Cymru yn erbyn y saith nod llesiant sy'n rhan o [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#). Mae'r dangosyddion sy'n cael eu dadansoddi yn y bwletin hwn hefyd yn cael eu trafod yn y bennod sy'n dwyn y teitl 'Cymru o gymunedau cydlynus' o fewn yr adroddiad [Llesiant Cymru](#), sef:

- Canran y bobl sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.
- Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.
- Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno canlyniadau sy'n seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017. Lle y bo'n briodol, mae'r canlyniadau hefyd yn cael eu cymharu gyda blynyddoedd blaenorol yr arolwg yn ogystal ag rhai arolygon eraill.

Mae tablau sy'n cynnwys lwfansau ansicrwydd a chanlyniadau manylach ar gael ar [ddangosydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol](#).


Bodddhad ag ardal leol

Yn 2016-17, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiwn yn holi pa mor fodlon oedd pobl gyda'u hardal leol fel lle i fyw. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried eu hardal leol fel yr ardal o fewn 15 i 20 munud o bellter cerdded o'u cartrefi. Dyma'r tro cyntaf i'r cwestiwn hwn gael ei gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol. Mae canlyniadau'r cwestiwn hwn yn mynd yn syth i mewn i'r dangosydd cenedlaethol [Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw](#) fel rhan o [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Yn gyffredinol, roedd 85% yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw: 44% yn 'fodlon iawn' a 42% yn 'weddol fodlon'. Roedd yr un cwestiwn wedi'i gynnwys yn yr arolwg [Community Life Survey](#) yn Lloegr rhwng 2012-13 a 2016-17. Canfuwyd yn 2016-17 fod y rhan fwyaf o bobl (78%) naill ai yn fodlon iawn (31%) neu'n weddol fodlon (47%) gyda'u hardal leol. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu hyn yn uniongyrchol gyda chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol gan fod y dulliau o gasglu'r data yn wahanol.¹

Wrth osod 'bodlon iawn' a 'gweddol fodlon' gyda'i gilydd, mae cyfran fwy o bobl hŷn yn fodlon â'u hardal leol: roedd 92% o'r rhai 75 oed neu hŷn yn fodlon, o gymharu â 77% o'r rhai 16-24 oed. Fodd bynnag, wrth edrych ar y rhai sy'n dweud eu bod yn 'fodlon iawn', mae'r gwahaniaeth rhwng pobl iau a phobl hŷn yn amlycach fyth. Roedd 61% o'r rhai 75 oed neu hŷn yn fodlon iawn, o gymharu â 25% o'r rhai 16-24 oed (gweler Siart 1).

Siart 1: Bodddhad ag ardal leol fel lle i fyw, yn ôl oedran




Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch amddifadedd materol. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn am eitemau y mae rhai pobl yn cael trafferth dod o hyd i arian ar eu cyfer. Wrth ddadansoddi canlyniadau'r cwestiynau hyn, gellir mesur amddifadedd materol y cartref.² Roedd cyfran y bobl mewn amddifadedd materol sy'n dweud eu bod yn fodlon gyda'u hardal leol (76%) yn is na'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol (87%). Yn yr un modd, roedd y bobl sy'n

¹ Sylwer fod yr arolwg [Community Life Survey 2016-17](#) wedi newid o gyfweiliad wyneb yn wyneb i holiadur cymysg ar-lein ac ar bapur o 2016-17 ymlaen. Felly nid oes modd cymharu data'r Arolwg Cenedlaethol a'r arolwg Community Life Survey 2016-17 yn uniongyrchol.

² Gweler y diffiniad o amddifadedd materol: [Termau a diffiniadau](#)


byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig³ yn llai bodlon â'u hardal leol (74%) na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (94%). Unwaith eto, wrth edrych ar y rhai sy'n dweud eu bod yn 'fodlon iawn', mae'r gwahaniaeth rhwng y grwpiau hyd yn oed yn fwy amlwg. Roedd 26% o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fodlon iawn o gymharu â 57% o'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Siart 2).

Siart 2: Boddhad ag ardal leol fel lle i fyw, yn ôl amddifadedd yr ardal³



Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor fodlon oedden nhw â'u bywydau. Roedd 91% o'r rhai sy'n fodlon iawn gyda'u bywydau⁴ yn dweud eu bod yn fodlon â'u hardal leol, o gymharu â 73% o'r rhai nad ydynt yn fodlon â'u bywydau (Siart 3).

Siart 3: Boddhad ag ardal leol fel lle i fyw, yn ôl boddhad â bywyd




³ Ardaloedd sy'n cael eu diffinio fel yr 20% mwyaf difreintiedig yn ôl mynegai amddifadedd lluosog Cymru - Gweler [Termau a diffiniadau](#)

⁴ Mesurwyd boddhad â bywydau ar raddfa rhwng 0 a 10, lle'r oedd 0 yn golygu 'ddim yn fodlon o gwbl' a 10 yn golygu 'cwbl fodlon'

Mae boddhad ag ardal leol yn amrywio yn ôl awdurdod lleol o 95% yng Ngheredigion i 66% ym Mlaenau Gwent (Siart 4).

Siart 4: Boddhad ag ardal leol fel lle i fyw, yn ôl awdurdod lleol



Roedd boddhad ag ardal hefyd yn amrywio yn ôl ystod o ffactorau eraill:

- Roedd pobl oedd yn dweud eu bod yn iach yn fwy tebygol o fod yn fodlon (87%) na phobl nad oeddent yn iach (78%).
- Roedd pobl gyflogedig yn fwy tebygol o fod yn fodlon (86%) na phobl ddi-waith (78%).

- Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn fodlon (90%) na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol (83%).⁵
- Roedd perchen-feddianwyr yn fwy tebygol o fod yn fodlon (87%) na'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol (78%).
- Roedd pobl a oedd yn teimlo'n ddiogel (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio) yn fwy tebygol o fod yn fodlon (90%) na'r rhai nad oedd yn teimlo'n ddiogel (74%).
- Roedd pobl unig yn llai tebygol o fod yn fodlon (76%) na'r rhai nad oeddent yn unig (91%).⁶

Dadansoddiad pellach - Boddhad gyda'r ardal leol

Roedd y traws-ddadansoddiad a gyflawnwyd yn y penodau diwethaf yn dangos bod boddhad pobl gyda'u hardal leol yn amrywio yn ôl ffactorau fel oedran, amddifadedd (amddifadedd yr ardal ac amddifadedd materol yr aelwyd) ac ardal awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, mae gan rai ardaloedd gyfran uwch o bobl mewn amddifadedd materol). Felly i gael gwell dealltwriaeth o effaith pob ffactor penodol, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol i edrych ar effaith un ffactor ar foddhad ag ardal, gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson (a elwir weithiau yn "rheoli ar gyfer ffactorau eraill").⁷

Gan ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, canfuwyd fod gan y ffactorau canlynol gysylltiad annibynnol â boddhad ag ardal leol:

- bod yn hŷn (75 oed ac yn hŷn);
- teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu⁸;
- byw yn ardal lai difreintiedig⁹;
- dim yn teimlo'n unig¹⁰;
- byw yn ardaloedd awdurdod lleol penodol (roedd pobl sy'n byw yng Ngheredigion neu Caerdydd yn fwy tebygol o fod yn fodlon a'u hardal leol, tra bod pobl ym Mlaenau Gwent a Sir y Fflint yn llai tebygol o fod yn fodlon);
- byw mewn ardal wledig;
- teimlo'n fodlon iawn â bywyd.

Er bod traws-ddadansoddiad syml yn dangos bod deiliadaeth, amddifadedd materol aelwydydd, statws economaidd¹¹ a disgrifiad pobl o'u hiechyd yn gyffredinol yn effeithio ar eu boddhad ag ardal leol, roedd y dadansoddiad mwy manwl hwn yn dangos bod y gwahaniaethau ymddangosiadol yn diflannu ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Mae hynny'n golygu bod gwahaniaethau yn ôl (er enghraifft) deiliadaeth yn deillio o wahaniaethau yn y math o bobl sy'n byw mewn mathau penodol o lety.

⁵ Ceir diffiniad o ardaloedd trefol a gwledig yn [Termau a diffiniadau](#)

⁶ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#).

⁷ Gelwir y dull hwn yn [atchweliad](#). Ceir gwybodaeth am y dull a ddefnyddir yn yr [adroddiad technegol](#).

⁸ Y rhai sy'n teimlo'n ddiogel yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.

⁹ Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: gweler [Termau a diffiniadau](#)

¹⁰ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#).

¹¹ Mewn swydd, di-waith neu economaidd anweithgar.

Cydllyniant cymunedol

Mae 'cydllyniant cymunedol' yn dynodi i ba raddau mae pobl yr ardal yn byw ynghyd gan ddeall a pharchu ei gilydd. Mae '[Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydllyniant Cymunedol Cymru](#)', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009, yn gosod ei blaenoriaethau ar gyfer gwella cydllyniant cymunedol.

Yn flaenorol defnyddiwyd [Arolwg Byw yng Nghymru](#)¹² i ddarparu tystiolaeth gwaelodlin ar gyfer datblygu'r strategaeth hon. Mae cwestiynau am berthynas pobl gydag eraill yn eu hardal leol wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol ers 2012-13 er mwyn monitro effaith prosiectau sydd wedi'u llunio i gynyddu cydllyniant cymunedol.


Rhwng 2012-13 a 2016-17, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau'n holi'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda phob un o'r datganiadau canlynol:

- Rwy'n perthyn i'r ardal leol.
- Mae'r ardal leol yn fan lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda.
- Mae pobl yn fy ardal leol yn trin ei gilydd ag urddas a pharch.

Roedd cyfran y bobl oedd yn cytuno'n gryf neu'n dueddol o gytuno gyda phob un o'r tri datganiad yn bwydo i mewn i'r dangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: [Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch](#)¹³

Mae Siart 5 yn dangos y canlyniadau cydllyniant cymunedol hyn dros y pedair blynedd y mae'r cwestiynau wedi cael eu holi yn yr arolwg.

Siart 5: Cytuno â'r datganiadau cydllyniant cymunedol, fesul blwyddyn



¹² Roedd Arolwg Byw yng Nghymru yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: 'Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn i'r gymdogaeth hon' (rhwng 2004 a 2008); 'Mae'r gymdogaeth hon yn fan lle gall pobl o wahanol gefndiroedd fyw'n gytûn gyda'i gilydd' (rhwng 2005 a 2007). Roedd hefyd yn gofyn cwestiynau pellach am farn pobl ynghylch eu cymdogaeth. Mae'r Holiaduron ar gael [yma](#).

¹³ Dangosydd 27, [Dangosyddion Cenedlaethol Cymru](#). Pan ofynnwyd a oedd pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda, dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd digon o bobl yn yr ardal leol i fedru ateb, neu fod y bobl yn eu hardal leol i gyd yn rhannu'r un cefndir. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cael eu cyfrif eu bod yn cytuno at ddibenion y dangosydd cenedlaethol os oeddent yn cytuno'n gryf neu'n dueddol o gytuno â'r ddau ddatganiad arall.


Mae Siart 5 yn dangos yn 2016-17 bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal leol (72%), bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda (72%) a bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (73%). Dyma'r achos ers 2012-13, gyda dros 70% yn cytuno â phob un o'r tri datganiad. Cyfran y bobl oedd yn cytuno â phob un o'r tri datganiad yn 2016-17 oedd 50%. Er bod y gyfran sy'n cytuno â phob un o'r tri datganiad wedi syrthio ers 2013-14 (62%) a 2014-15 (61%), does dim gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng canlyniad 2016-17 a 2012-13. Gallai newidiadau yn y canlyniadau hyn dros amser fod yn rhannol oherwydd o'r newidiadau yn safle'r cwestiynau ar gydlyniant cymunedol yn holiadur yr arolwg¹⁴.

Yn 2016-17 newidiodd yr arolwg [Community Life Survey](#), o fod yn arolwg wyneb yn wyneb i fod yn arolwg ar-lein ac ar bapur, felly nid yw mor hawdd ei gymharu gyda'r Arolwg Cenedlaethol¹⁵. I roi cyd-destun fodd bynnag, roedd 71% o bobl Lloegr yn 2016-17 yn teimlo'n gryf neu'n weddol gryf eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth, ac roedd 81% o'r bobl yn cytuno bod eu hardal leol yn fan lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda.

Cydlyniant Cymunedol yn ôl oedran

Wrth edrych ar canlyniadau 2016-17 yr Arolwg Cenedlaethol, mae cyfran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal, bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda, a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch gyd yn uwch ar gyfer grwpiau oedran hŷn (gweler Siart 6). Roedd hynny hefyd yn wir ar gyfer y dangosydd cyfansawdd.

Siart 6: Cytuno â'r datganiadau cydlyniant cymunedol, yn ôl oedran




¹⁴ Yn 2012-13 a 2016-17, roedd y cwestiynau'n dilyn cyfres o gwestiynau ynghylch llesiant, ac yn 2013-14 a 2014-15, roedd y cwestiynau'n dilyn cyfres o gwestiynau am y Gymraeg. Gallai'r newidiadau hyn yn y cwestiynau blaenorol wedi achosi neu wedi cyfrannu at y gwahaniaeth mewn ymatebion i'r cwestiynau cydlyniant cymunedol.

¹⁵ Sylwer fod yr arolwg [Community Life Survey 2016-17](#) wedi newid o gyfweiliad wyneb yn wyneb i holiadur cymysg ar-lein ac ar bapur o 2016-17 ymlaen. Felly nid oes modd cymharu data'r Arolwg Cenedlaethol a'r arolwg Community Life Survey 2016-17 yn uniongyrchol.

Cydlyniant cymunedol yn ôl boddhad ag ardal leol

Roedd cyfran uwch o'r rhai sy'n dweud eu bod yn fodlon â'u hardal leol hefyd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn (77%), bod pobl yn cyd-dynnu'n dda (77%) ac yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (78%), o gymharu gyda'r rhai nad oedd yn fodlon nac yn anfodlon (44%, 48% and 41%) a'r rhai anfodlon (40%, 44% and 39%). Roedd y patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu yn y dangosydd sy'n cyfuno'r tri datganiad, gyda 56% o'r rhai oedd yn fodlon â'u hardal leol yn cytuno â'r holl ddatganiadau, o gymharu ag 17% nad oedd yn fodlon nac yn anfodlon, neu'n anfodlon: gweler Siart 7.

Siart 7: Cydlyniant cymunedol, yn ôl boddhad ag ardal leol




Fodd bynnag er i ni weld y patrwm hwn, wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd nad oedd boddhad ag ardal leol yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at deimlad o gydlyniant cymunedol person, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Cydlyniant cymunedol yn ôl dosbarthiad trefol / gwledig

Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cryf o gydlyniant cymunedol na phobl mewn ardaloedd trefol. Mewn ardaloedd gwledig, roedd 76% o'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol, 77% yn dweud bod pobl yn cyd-dynnu'n dda, ac 80% yn dweud bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch: ffigurau ardaloedd trefol oedd 69%, 70% a 69% yn eu tro. Mae'r dangosydd cyfansawdd hefyd yn dangos cyfan uwch o bobl mewn ardaloedd gwledig (58%) yn cytuno â phob datganiad na phobl mewn ardaloedd trefol (46%): gweler Siart 8.¹⁶

Siart 8: Cydlyniant cymunedol, yn ôl dosbarthiad trefol / gwledig




¹⁶ Trefol / Gwledig - gweler [Termau a diffiniadau](#)

Cydlyniant Cymunedol yn ôl awdurdod lleol

Gan edrych ar y ffigurau ar gyfer y dangosydd cyfansawdd yn ôl awdurdod lleol, mae Siart 9 yn dangos bod cyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn cytuno â phob un o'r tri datganiad yn amrywio o 67% yng Ngheredigion i 37% yng Nghasnewydd. Roedd y mwyafrif yn cytuno â phob un o'r tri datganiad yng Ngheredigion, Powys, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro, Conwy, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Caerdydd, Ynys Môn a Phen-y-bont ar Ogwr; yn yr awdurdodau lleol eraill, nid oedd y mwyafrif yn cytuno â phob un o'r tri datganiad.

Siart 9: Cydlyniant Cymunedol, yn ôl awdurdod lleol




Ar gyfer yr awdurdodau lleol ble oedd y mwyafrif o bobl yn cytuno yn 2016-17 gyda'r tri datganiad, mae patrwm tebyg wedi'i ganfod ers 2012-13, ac eithrio Caerdydd lle'r oedd 41% yn cytuno yn 2012-13. Yn 2013-14, ym mhob un o'r awdurdodau lleol roedd y mwyafrif yn cytuno â phob un o'r tri datganiad.

Wrth edrych ar bob datganiad yn unigol, roedd mwyafrif y bobl ym mhob awdurdod lleol yn cytuno â'r datganiadau. Roedd cytuno â'r datganiad 'Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn i'r ardal leol' yn amrywio o 82% yn Sir Ddinbych i 63% yng Nghasnewydd. Hefyd roedd y nifer oedd yn cytuno â'r datganiad 'mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda' ac 'mae pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch' yn amrywio, y ddau yn 87% yng Ngheredigion ond 62% a 56% yn eu tro ym Mlaenau Gwent. Er mai Blaenau Gwent oedd â'r gyfran isaf ar gyfer dau o'r datganiadau, roedd y gyfran oedd yn teimlo eu bod yn perthyn yn 71%. Casnewydd oedd â'r gyfran isaf yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal, a'r gyfran isaf ond un yn cytuno bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda (62%) a bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (61%). Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dangosydd cyfansawdd, gan mai Casnewydd oedd â'r gyfran isaf i gytuno â phob un o'r datganiadau. Mae amrywiol ffactorau pwysig eraill yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, ac fe allai hyn gyfrif am y gwahaniaethau o ran cydlyniant cymunedol, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Cydlyniant cymunedol yn ôl deiliadaeth

Nid oedd y mwyafrif o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol a rhentu preifat yn cytuno â phob un o'r tri datganiad ynghylch cydlyniant cymunedol (Siart 10). Roedd perchen-feddianwyr yn fwy tebygol o gytuno â phob un o'r tri datganiad (55%) na'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol a'r rhai sy'n rhentu'n breifat. Nid oedd gwahaniaeth rhwng y rhai mewn tai cymdeithasol a'r rhai sy'n rhentu'n breifat (y ddau yn 38%)

Siart 10: Cydlyniant cymunedol, yn ôl deiliadaeth




Roedd cyfran y bobl sy'n teimlo eu bod yn perthyn yn uwch ar gyfer perchen-feddianwyr (75%) o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol (66%) a rhentu'n breifat (58%). Dyma'r achos hefyd ar gyfer y ddau fesur arall sy'n rhan o'r dangosydd cenedlaethol cyfansawdd. Roedd 75% o'r perchen-feddianwyr, 64% o'r rhai mewn tai cymdeithasol a 70% o'r rhai sy'n rhentu'n breifat yn cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda a 77% o'r perchen-feddianwyr, 67% o'r rhai sy'n rhentu'n breifat a 59% o'r rhai mewn tai cymdeithasol yn cytuno bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (Siart 10).

Cydlyniant cymunedol yn ôl iechyd

Roedd 74% o'r bobl mewn iechyd da yn cytuno bod pobl yn cyd-dynnu'n dda a 75% yn cytuno bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch, o gymharu â 61% a 63% o'r rhai mewn iechyd gwael. Yn yr un modd, mae'r dangosydd cyfansawdd yn dangos bod 52% o'r rhai mewn iechyd da a 41% o'r rhai mewn iechyd gwael yn cytuno â phob un o'r tri datganiad (Siart 11). Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng pobl mewn iechyd da ac iechyd gwael o ran cytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol. Wrth reoli newidynnau eraill, canfuwyd nad oedd iechyd cyffredinol yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at deimlad o gydlyniant cymunedol person, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.


Siart 11: Cydlyniant cymunedol, yn ôl iechyd cyffredinol



Cydlyniant cymunedol yn ôl boddhad â bywyd

Roedd pobl oedd yn fodlon iawn â'u bywydau yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn perthyn i'r ardal leol (79%), bod pobl yn cyd-dynnu'n dda (78%) a bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (78%) na'r rhai nad oedd yn fodlon â'u bywydau (60% ar gyfer pob un o'r datganiadau hyn). Roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer y dangosydd cyfansawdd: roedd 59% o'r rhai oedd yn fodlon iawn â'u bywydau yn cytuno gyda'r tri datganiad, o gymharu â 36% o'r rhai nad oedd yn fodlon â'u bywydau: gweler Siart 12.


Siart 12: Cydlyniant cymunedol, yn ôl boddhad â bywyd



Cydlyniant cymunedol yn ôl unigrwydd

Fe gafodd cyfres o gwestiynau eu cynnwys yn yr arolwg i benderfynu a oedd pobl yn unig¹⁷. Roedd cyfran is o'r bobl unig yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal leol (57%), bod pobl yn cyd-dynnu'n dda (59%) a bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (58%) o gymharu â'r rhai nad oeddent yn unig (79%, 80% ac 82%). Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y dangosydd cyfansawdd, gyda chyfran is o'r rhai unig yn cytuno â phob un o'r tri datganiad (32%), o gymharu â'r rhai nad oeddent yn unig (60%) (Siart 13).


Siart 13: Cydlyniant cymunedol, yn ôl unigrwydd



Cydlyniant cymunedol yn ôl teimlo'n ddiogel

Roedd cyfran uwch o'r rhai a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddiogel hefyd yn teimlo eu bod yn perthyn (75%), bod pobl yn cyd-dynnu'n dda (77%) a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (80%), o gymharu â'r rhai nad oeddent yn teimlo'n ddiogel (62%, 59% a 54% yn eu tro). Roedd 56% o'r rhai a oedd yn teimlo'n ddiogel yn cytuno â phob un o'r tri datganiad, o gymharu â 32% o'r rhai nad oedd yn teimlo'n ddiogel (Siart 14).

Siart 14: Cydlyniant cymunedol, yn ôl teimlo'n ddiogel




¹⁷ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#).

Cydlyniant cymunedol yn ôl amddifadedd materol

Roedd pobl mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o gytuno â phob un o'r tri datganiad, fel y gwelir yn Siart 15 isod. Roedd cyfran uwch o'r rhai nad oeddent mewn amddifadedd materol yn teimlo eu bod yn perthyn (73%), bod pobl yn cyd-dynnu'n dda (74%) a bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (75%), o gymharu â phobl mewn amddifadedd materol (lle'r oedd 63%, 62% a 58% yn cytuno â'r datganiadau hyn yn eu tro). Roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer y dangosydd cyfansawdd.


Siart 15: Cydlyniant cymunedol, yn ôl amddifadedd materol



Cydlyniant cymunedol yn ôl cymwysterau

Roedd pobl a oedd wedi cael addysg hyd at lefel gradd neu uwch¹⁸ yn llai tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'r ardal (69%) na'r rhai heb gymwysterau (79%) (gweler Siart 16). Gallai hyn fod yn sgil y ffaith fod pobl â lefelau uwch o gymwysterau yn symud o ardal eu magwraeth i ddilyn cyfleoedd gwaith penodol. Roedd y rhai â chymwysterau uwch yn fwy tebygol o deimlo bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (78%), o gymharu â 71% ar gyfer pobl heb gymwysterau. Ar gyfer y dangosydd cyfansawdd a'r datganiad fod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y rhai wedi'u haddysgu at lefel gradd neu uwch a'r rhai heb gymwysterau.

Siart 16: Mesurau cydlyniant cymunedol, yn ôl cymhwyster uchaf




¹⁸ Am wybodaeth am sut y cafodd cymwysterau eu grwpio gweler [Termau a diffiniadau](#).

Cydlyniant cymunedol yn ôl siarad Cymraeg

Roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'r ardal (77%), fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda (75%), a bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (76%) na'r rhai na allent siarad Cymraeg (70%, 72% a 72% yn eu tro). Roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer y dangosydd cyfansawdd: roedd 56% o'r siaradwyr Cymraeg yn cytuno â phob un o'r tri datganiad, o gymharu â 49% o'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg (Siart 17).


Siart 17: Cydlyniant cymunedol, yn ôl y gallu i siarad Cymraeg



Cydlyniant cymunedol yn ôl grŵp ethnig

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i'r ymatebwyr nodi eu grŵp ethnig o restr o 18 ethnigrwydd gwahanol, ond yn sgil nifer fach y bobl yn rhai o'r grwpiau hyn, mae ond yn bosib dadansoddi yn ôl tri grŵp: "gwyn - Cymru / Lloegr / yr Alban / Gogledd Iwerddon / Prydain", "Unrhyw grŵp gwyn arall" ac "Unrhyw grŵp ethnig arall" ¹⁹ (Siart 18). Roedd cyfran uwch o bobl o "Unrhyw grŵp ethnig arall" yn dweud bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda (79%) o gymharu â phobl 'Gwyn Prydeinig' (72%). Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau ethnig ar gyfer y ddau ddatganiad arall, na'r dangosydd cyfansawdd.

Siart 18: Cydlyniant cymunedol, yn ôl grwpiau ethnig




¹⁹Mae 'Grwpiau ethnig eraill' yn golygu'r rhai nad ydynt yn wyn. Mae'n cynnwys pobl o ethnigrwydd Cymysg, Asiaidd a Du. Nid oes adroddiad ar bob un o'r rhain ar wahân gan fod nifer y bobl â'r nodweddion hyn sy'n cael eu cyfweld yn rhy isel (llai na 30 o bobl).

Cydlyniant cymunedol yn ôl crefydd

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu crefydd, o restr o 6 crefydd, ynghyd a 'dim crefydd' a 'unrhyw grefydd arall'. Fodd bynnag oherwydd y niferoedd bach o bobl yn rhai o'r grwpiau hyn, nid oedd ond yn bosibl i ddadansoddi yn ôl 6 grŵp, felly roedd rhaid eu grwpio i dri grŵp: "Dim crefydd", "Cristnogol" a "chrefyddau eraill20" (Siart 19). Roedd Cristnogion yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol (76%) na'r rhai heb grefydd (65%). Roedd cyfran uwch o'r bobl grefyddol yn meddwl bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda gyda'i gilydd (75% o Gristnogion ac 82% o'r rhai â chrefydd arall), a bod pobl drin ei gilydd â pharch ag ystyriaeth (76% o Gristnogion a 82% o'r rhai â chrefydd arall) o gymharu â rhai heb grefydd (68% a 68%). Roedd y rhai crefyddol yn fwy tebygol o gytuno â'r tri datganiad, na'r rheini heb unrhyw grefydd.


Siart 19: Cydlyniant cymunedol, yn ôl crefydd



Cydlyniant cymunedol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol

Roedd pobl heterorywiol yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn i'r ardal (72%) a bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda (73%) na phobl o rywioldeb arall (63% ar gyfer y ddau)²¹. Mae'r dangosydd cyfansawdd hefyd yn adlewyrchu'r patrwm hwn: roedd 50% o'r bobl heterorywiol yn cytuno â phob un o'r tri datganiad a 41% o'r bobl o rywioldeb arall yn cytuno. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol²² rhwng pobl heterorywiol ac eraill yn y gyfran oedd yn dweud bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (Siart 20). Er i ni weld y patrwm hwn, wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd nad oedd cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at deimlad o gydlyniant cymunedol person, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Siart 20: Cydlyniant cymunedol, yn ôl cyfeiriadedd rhywiol



²⁰ 'Crefydd arall' yn cynnwys pob crefydd ac eithrio Cristnogaeth (Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Islam, Siciaeth a 'unrhyw grefydd arall')

²¹ Mae 'Rhywioldeb arall' yn cynnwys pobl a atebodd 'Hoyw neu lesbiaidd', 'Deurywiol', 'Arall', 'Ddim yn gwybod' neu 'Ddim am ddweud' i'r cwestiwn 'Pa un o'r opsiynau isod sy'n disgrifio orau eich barn am eich hun?'

²² Gweler adran [gwahaniaethau arwyddocaol](#) o [Gwybodaeth Ansawdd Allweddol](#) am fwy o wybodaeth.

Dadansoddiad pellach - Cydlyniant Cymunedol

Mae'r traws-ddadansoddiad a wnaed yn y bennod cydlyniant cymunedol yn dangos bod amrywiol ffactorau fel oedran, amddifadedd (amddifadedd ardal ac amddifadedd materol aelwydydd) a'r ardal awdurdod lleol o bosib yn effeithio ar synnwyr pobl o gymuned. Fodd bynnag, mae dadansoddiad manwl o ddata'r arolwg yn dangos bod gwahaniaethau daearyddol yn aml yn cael eu gyrru gan wahaniaethau cyfansoddol yn hytrach nag amodau lleol penodol. Hefyd, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, mae gan rai ardaloedd gyfran uwch o bobl mewn amddifadedd materol).

I gael gwell dealltwriaeth o effaith pob ffactor penodol, rydym wedi rheoli ar gyfer y ffactorau eraill²³. Drwy ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, gwelwyd fod y canlynol yn ffactorau cysylltiedig ag **ymdeimlad cryf o gymuned**:

- bod yn hŷn;
- yn berchennog ar eu cartref;
- byw mewn ardal llai difreintiedig²⁴;
- teimlo'n ddiogel (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, a theithio);
- ddim yn teimlo'n unig²⁵;
- â lles meddyliol uchel;
- yn byw mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol (roedd y rhai a oedd yn byw yng Ngheredigion neu sir Ddinbych yn fwy tebygol o gael ymdeimlad cryf o gymuned, tra fod pobl yng Nghasnewydd neu Wrecsam yn llai tebygol o gael ymdeimlad cryf o gymuned);
- yn gwirfoddoli i glwb neu sefydliad;
- â chymwysterau o lefel is neu dim cymhwyster;
- yn fodlon gyda'i bywyd; a
- chael crefydd, sydd ddim yn Gristnogol.

Gan fod y dangosydd yn cynnwys tri o gwestiynau unigol, edrychwyd hefyd ar bob un o'r cwestiynau ar wahân. Mae hyn wedi caniatáu i ni weld a oedd y rhagfynegyddion yr un fath â phan oedd y cwestiynau wedi'u cyfuno i ddangosydd unigol. Dilynwyd y dull gweithredu hwn hefyd gan ddefnyddio canlyniadau arolwg 2014-15²⁶.

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd bod y canlynol yn ffactorau cysylltiedig â'r **teimlad o berthyn i'r ardal leol**:

- bod yn hŷn;
- teimlo'n ddiogel (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, a theithio);
- ddim yn teimlo'n unig²⁷;
- â lles meddyliol uchel;

²³ Gelwir y dull hwn yn [atchweliad](#) logistig. Ceir gwybodaeth am y dull a ddefnyddir yn yr [adroddiad technegol](#).

²⁴ Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: gweler [Termau a diffiniadau](#)

²⁵ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#) – gweler [termau a diffiniadau](#)

²⁶ [Pwy sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned?](#)

²⁷ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#) – gweler [termau a diffiniadau](#)

- yn byw mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol (e.e. roedd y rhai yng Nghasnewydd neu Wrecsam yn llai tebygol o deimlo eu bod yn perthyn, tra fod pobl yn Sir Ddinbych neu Powys yn fwy tebygol o berthyn i'r ardal)
- yn gwirfoddoli i glwb neu sefydliad;
- â chymwysterau o lefel is neu dim cymhwyster;
- yn berchennog ar eu cartref;
- â hunaniaeth cenedlaethol Cymreig;
- yn fodlon gyda'i bywyd;
- fod plant yn y cartref;
- â chrefydd, sydd ddim yn Gristnogol;
- meddwl y gellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl; a
- siarad o leiaf ychydig o Gymraeg ac yn ei siarad bob dydd.

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd bod y canlynol yn ffactorau cysylltiedig â'r teimlad bod yr **ardal leol yn fan lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda:**

- bod dros 75 mlwydd oed;
- teimlo'n ddiogel (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, a theithio);
- yn byw mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol (e.e. pobl yng Nghasnewydd ac Abertawe yn llai tebygol o deimlo fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, a phobl yng Ngheredigion a Castell-nedd Port Talbot yn fwy tebygol);
- fod heb unrhyw gymwysterau;
- meddwl y gellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl;
- byw mewn ardal llai difreintiedig²⁸;
- byw mewn ardaloedd lle bod y boblogaeth yn wasgaredig yn hytrach nag ardaloedd fwy adeiledig²⁹;
- â chrefydd, sydd ddim yn Gristnogol; a
- â lles meddyliol uchel.

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd bod y canlynol yn ffactorau cysylltiedig â'r teimlad bod **pobl yn fy ardal leol yn trin ei gilydd ag urddas a pharch:**

- bod dros 75 mlwydd oed;
- teimlo'n ddiogel (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, a theithio);
- ddim yn teimlo'n unig³⁰;
- byw mewn ardal llai difreintiedig³¹;
- byw mewn ardaloedd lle bod y boblogaeth yn wasgaredig yn hytrach nag ardaloedd fwy adeiledig³²;
- yn fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw;
- â chrefydd, sydd ddim yn Gristnogol; a
- â chymwysterau.

²⁸ Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: gweler [Termau a diffiniadau](#)

²⁹ Gweler Ardal adeiledig yn [Termau a Diffiniadau](#)

³⁰ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#) – gweler [termau a diffiniadau](#)

³¹ Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: gweler [Termau a diffiniadau](#)

³² Gweler Ardal adeiledig yn [Termau a Diffiniadau](#)

Diogelwch cymunedol

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisiâu i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel wrth fyw a gweithio mewn cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (CSOs) ychwanegol yng Nghymru. Er mwyn helpu i asesu unrhyw newidiadau a allai fod yn gysylltiedig â gwaith y swyddogion ychwanegol hyn, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau yn 2016-17 ynghylch canfyddiad pobl am ddiogelwch yn eu hardal. Cafodd y cwestiynau hefyd eu cynnwys i fonitro cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2016-17, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i'r ymatebwyr pa mor ddiogel neu anniogel yr oeddent yn teimlo ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol ar ôl iddi dywyllu:


- yn y cartref;
- yn cerdded wrth eu hunain yn eu hardal leol;
- wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus; a
- wrth deithio yn y car.

Mae'r pedwar mesur hwn yn ffurfio dangosydd cyfansawdd³³ sy'n seiliedig ar gyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n 'ddiogel iawn' neu'n 'weddol ddiogel' ym mhob sefyllfa. O gymharu â'r cwestiynau eraill yn yr arolwg, roedd y gyfran a atebodd 'ddim yn gwybod' wrth sôn am deimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu yn arbennig o uchel: 35%. Roedd hyn er i'r cyfweilydd annog ymatebwyr nad ydynt yn defnyddio cludiant cyhoeddus i feddwl am ba mor ddiogel y **byddent** yn teimlo petaent yn y sefyllfa honno (gan y gallai rhai pobl osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gan eu bod yn meddwl na fyddent yn teimlo'n ddiogel). Oherwydd y lefel uchel o atebion 'ddim yn gwybod', roedd y rhai a roddodd yr ateb hwnnw i unrhyw gwestiwn yn cael eu cynnwys fel eu bod yn teimlo'n ddiogel os oeddent wedi ateb 'diogel iawn' neu 'gweddol ddiogel' i'r cwestiynau eraill.

Roedd y mwyafrif yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu: 80% yn teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain yn eu hardal, 97% yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, 79% yn teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a 97% yn teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dangosydd cyfansawdd, gyda 73% yn teimlo'n ddiogel ym mhob sefyllfa. Roedd menywod yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel na dynion ym mhob sefyllfa, fel y gwelir yn Siart 21.

³³ Dangosydd 25: [Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio, Dangosyddion Cenedlaethol Cymru](#)


Siart 21: Diogelwch cymunedol, yn ôl rhywedd



Diogelwch cymunedol yn ôl ardal

Mae Siart 22 yn dangos bod diogelwch cymunedol yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Roedd 91% o bobl Ceredigion yn teimlo'n ddiogel yn y pedair sefyllfa o gymharu â 57% o bobl Blaenau Gwent. O'r pedair sefyllfa y gofynnwyd amdanynt, Ceredigion oedd yr awdurdod â'r gyfran uchaf yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain ar ôl iddi dywyllu (94%), gartref ar ôl iddi dywyllu (bron pawb) ac ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu (94%); Ynys Môn, Gwynedd a Sir Benfro oedd â'r gyfran uchaf yn teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car ar ôl iddi dywyllu (99%). Blaenau Gwent oedd â'r gyfran isaf oedd yn teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain ar ôl iddi dywyllu (65%), ar drafnidiaeth gyhoeddus (60%) ac yn teithio yn y car (92%); Merthyr Tudful oedd yr awdurdod â'r gyfran isaf yn teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu (93%). Tra bod y gyfran o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, wrth reoli am nodweddion y bobl a'r ardal, canfuwyd bod ffactorau eraill yn fwy pwysig i egluro lefelau diogelwch pobl. Gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Siart 22: Dangosydd cyfansawdd diogelwch cymunedol, yn ôl awdurdod lleol




Mae [Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr](#) yn gofyn cwestiynau am agweddau tuag at yr heddlu lleol. Yng Nghymru yn 2016-17, dywedodd 63% o bobl bod yr heddlu'n gwneud gwaith ardderchog neu dda, 61% yn cytuno bod yr heddlu'n delio â phryderon lleol a 63% yn cytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn delio â materion. Roedd y ffigurau hyn yn debyg i'r canlyniadau ar gyfer Lloegr, sef 62%, 61% a 61% yn eu trefn.³⁴ Cyhoeddwyd hefyd y canlyniadau fesul heddluoedd. Yng Nghymru, Heddlu Dyfed-Powys oedd â'r gyfran uchaf o bobl yn dweud bod yr heddlu'n gwneud gwaith ardderchog/da (73%), yn cytuno bod yr heddlu'n delio â phryderon lleol (68%) ac yn cytuno bod yr heddlu a chynghorau lleol yn delio â materion (70%). Heddlu Gwent oedd â'r gyfran isaf gyda 51%, 52% a 54% yn eu trefn.

Mae'r canlyniadau hyn o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dilyn patrwm tebyg yn ôl ardal i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer y dangosydd cyfansawdd ar gyfer teimlo'n ddiogel. Yn ôl

³⁴ [Crime in England and Wales: Annual supplementary tables](#), blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2017

yr Arolwg Cenedlaethol, roedd 84% o bobl yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn teimlo'n ddiogel yn y pedair sefyllfa, o gymharu â 67% yn ardal Heddlu Gwent. Mae Siart 23 yn dangos sut y mae canran y bobl a oedd yn cytuno bod yr heddlu'n gwneud gwaith ardderchog/da yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cyd-fynd â chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol fesul ardal yr heddlu.

Siart 23: Canlyniadau'r Arolwg Troseddu a'r Arolwg Cenedlaethol fesul ardal heddlu




Diogelwch cymunedol, yn ôl ardal drefol / wledig

Roedd pobl o ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu na phobl o ardaloedd trefol yn nhair o'r pedair sefyllfa. Y gwahaniaeth mwyaf (13 pwynt canran) yw rhwng y cyfraddau ar gyfer teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain ar ôl iddi dywyllu, gyda 76% o bobl o ardaloedd trefol a 89% o ardaloedd gwledig yn teimlo'n ddiogel. Nid oedd dim gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig o ran y gyfran sy'n teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car ar ôl iddi dywyllu (y ddau yn 97%).

Diogelwch cymunedol, yn ôl y math o aelwyd

Mae Siart 24 yn dangos mai oedolion mewn aelwydydd rheini sengl oedd y lleiaf tebygol o deimlo'n ddiogel. Roedd hyn fwyaf amlwg ar gyfer teimlo'n ddiogel wrth gerdded wrth eu hunain (65%, o gymharu ag 82% o bobl mewn aelwydydd dau oedolyn) a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus (66%, o gymharu ag 80% o bobl mewn aelwydydd dau oedolyn). Fodd bynnag wrth reoli newidynnau eraill, canfuwyd nad oedd math yr aelwyd yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at berson yn teimlo'n ddiogel: eglurwyd y gwahaniaeth rhwng mathau o aelwydydd mewn gwirionedd gan ffactorau eraill. Gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Siart 24: Diogelwch cymunedol, yn ôl y math o aelwyd




Diogelwch cymunedol yn ôl amddifadedd

Ar gyfer y dangosydd cyfansawdd ac ar gyfer tair o'r pedair sefyllfa ar wahân (pob un heblaw am deimlo'n ddiogel wrth deithio yn y car), roedd pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu na phobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.³⁵ Roedd y gwahaniaeth mwyaf amlwg ar gyfer teimladau ynghylch cerdded wrth eu hunain ar ôl iddi dywyllu, gyda 23 pwynt canran yn llai o bobl yn teimlo'n ddiogel yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (66%) nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (89%). Yn yr un modd, mae Siart 25 yn dangos bod y rheini mewn amddifadedd materol aelwyd yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel ym mhob un o'r sefyllfaoedd ac yn erbyn y dangosydd cyfansawdd na phobl nad oeddent mewn amddifadedd materol. Ar gyfer y dangosydd cyfansawdd mae gwahaniaeth o 15 pwynt canran rhwng y rheini mewn amddifadedd materol aelwyd (60% o bobl yn teimlo'n ddiogel) a'r rheini nad oeddent mewn amddifadedd materol (75% yn teimlo'n ddiogel).

³⁵ Yr 20% mwyaf difreintiedig a'r 20% lleiaf difreintiedig o'r ardaloedd a fesurwyd drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Gweler [Termau a diffiniadau](#)


Siart 25: Diogelwch cymunedol, yn ôl amddifadedd materol



Diogelwch cymunedol yn ôl unigrwydd

Yn gyffredinol, roedd pobl unig³⁶ yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel na'r rhai nad oeddent yn unig ym mhob sefyllfa ac fel sy'n cael ei fesur gan y dangosydd cyfansawdd. Mae Siart 26 yn dangos 19 pwynt canran o wahaniaeth rhwng 'unig' a 'nad oeddent yn unig' ar gyfer y dangosydd cenedlaethol. Roedd gwahaniaethau nodedig hefyd yn y canlyniadau ar gyfer cerdded wrth eu hunain a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Siart 26: Diogelwch cymunedol, yn ôl unigrwydd




³⁶ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#) – gweler [termau a diffiniadau](#)

Diogelwch cymunedol yn ôl iechyd a lles


Mae'r rhai mewn iechyd da yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel ym mhob sefyllfa; roedd hyn amlycaf ar gyfer teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, lle'r oedd 24 pwynt canran o wahaniaeth rhwng y rhai mewn iechyd da a'r rhai mewn iechyd gwael. Mae Siart 27 yn dangos y berthynas rhwng teimlo'n ddiogel ac iechyd cyffredinol.

Siart 27: Diogelwch cymunedol, yn ôl iechyd cyffredinol



Roedd cyfran uwch o bobl sy'n fodlon iawn â'u bywydau yn teimlo'n ddiogel yn y pedair sefyllfa (78%), o gymharu â 59% o'r rhai nad oedd yn fodlon â'u bywydau: 19 pwynt canran o wahaniaeth. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddau grŵp hyn oedd yr ymateb i'r cwestiwn ynghylch teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus: roedd 83% o'r rhai sy'n fodlon iawn â'u bywydau yn teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus o gymharu â 63% o'r rhai nad ydynt yn fodlon â'u bywydau (Siart 28). Wrth reoli newidynnau eraill, canfuwyd nad oedd boddhad â bywyd yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at berson yn teimlo'n ddiogel, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Siart 28: Diogelwch cymunedol, yn ôl boddhad â bywyd




Diogelwch cymunedol yn ôl grŵp ethnig

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i'r ymatebwyr nodi eu grŵp ethnig o restr o 18 ethnigrwydd gwahanol, ond yn sgil nifer fach y bobl yn rhai o'r grwpiau hyn, mae ond yn bosib dadansoddi yn ôl tri grŵp: "gwyn - Cymru / Lloegr / yr Alban / Gogledd Iwerddon / Prydain", "Unrhyw grŵp gwyn arall" ac "Unrhyw grŵp ethnig arall". Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng pobl gwyn a phobl o grwpiau ethnig eraill³⁷ yn y cyfraddau o bobl sy'n teimlo'n ddiogel ym mhob sefyllfa a nodwyd eisoes ac ar gyfer y dangosydd cyfansawdd.

Diogelwch cymunedol yn ôl cymwysterau

Mae Siart 29 yn dangos bod y rhai wedi'u haddysgu at lefel gradd neu uwch³⁸ yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel wrth gerdded wrth eu hunain, wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ar gyfer y dangosydd cyfansawdd na'r rhai heb gymwysterau. Roedd 13 pwynt canran o wahaniaeth rhwng y grwpiau hyn o bobl yn teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain, lle'r oedd 85% o'r rhai â chymhwyster lefel gradd a 73% o'r rhai heb gymwysterau yn teimlo'n ddiogel. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl lefel cymhwyster yn y cyfraddau o bobl yn teimlo'n ddiogel gartref ac wrth deithio yn y car. Wrth reoli newidynnau eraill, canfuwyd nad oedd cymhwyster uchaf person yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at berson yn teimlo'n ddiogel, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Siart 29: Diogelwch cymunedol, yn ôl cymhwyster uchaf




³⁷ Mae 'Grwpiau ethnig eraill' yn golygu'r rhai nad ydynt yn wyn. Mae'n cynnwys pobl o ethnigrwydd Cymysg, Asiaidd a Du. Nid oes adroddiad ar bob un o'r rhain ar wahân gan fod nifer y bobl â'r nodweddion hyn sy'n cael eu cyfweld yn rhy isel (llai na 30 o bobl).

³⁸ Gweler [Termau a diffiniadau](#)

Diogelwch cymunedol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol

Mae pobl heterorywiol yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain, wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ar gyfer y dangosydd cyfansawdd na phobl o rywioldeb arall. Ar gyfer y dangosydd cyfansawdd roedd gwahaniaeth o 11 pwynt canran rhwng pobl heterorywiol (73% yn teimlo'n ddiogel) a phobl o rywioldeb arall³⁹ (57% yn teimlo'n ddiogel). Roedd gwahaniaeth o 10 pwynt canran ar gyfer teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain a 9 pwynt canran ar gyfer teimlo'n ddiogel yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Nid oedd gwahaniaeth rhwng pobl heterorywiol a phobl o rywioldeb arall ar gyfer teimlo'n ddiogel gartref a theithio yn y car (Siart 30). Wrth reoli newidynnau eraill, canfuwyd nad oedd cyfeiriadedd rhywiol yn ffactor arwyddocaol a oedd yn cyfrannu at berson yn teimlo'n ddiogel, gweler [dadansoddiad pellach](#) am ragor o wybodaeth.

Siart 30: Diogelwch cymunedol, yn ôl cyfeiriadedd rhywiol



³⁹ Mae'r grŵp hwn yn eithrio'r rhai a roddodd yr ateb hoyw neu lesbiaidd, deurywiol, arall, ddim yn gwybod a ddim am ddweud.

Dadansoddiad pellach – Diogelwch cymunedol

Mae'r traws-ddadansoddiad yn y bennod diogelwch cymunedol hon yn dangos bod amrywiol ffactorau fel rhywedd, amddifadedd (amddifadedd ardal ac amddifadedd materol aelwydydd) a'r ardal awdurdod lleol o bosib yn effeithio ar ba mor ddiogel mae pobl yn teimlo yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu. Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, mae gan awdurdodau lleol penodol gyfran uwch o aelwydydd mewn amddifadedd materol nag awdurdodau eraill). I gael dealltwriaeth glir o effaith ffactor unigol, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol i wahanu effeithiau ffactorau penodol ar y ffaith a yw unigolyn yn teimlo'n ddiogel. (Bydd y dulliau hyn yn caniatáu i ni edrych ar effaith un ffactor gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson (sef rheoli ar gyfer ffactorau eraill"). Mae'r dadansoddiad yn edrych ar y berthynas â'r dangosydd cenedlaethol cyfansawdd⁴⁰ hy "Ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn eich ardal leol ar ôl iddi dywyllu yn eich cartref, wrth gerdded ac wrth deithio?"

Canfuwyd bod y nodweddion canlynol yn cyfrannu at deimladau pobl o ddiogelwch yn eu hardal leol, wrth reoli'r ffactorau eraill ar yr un pryd:

- Bod yn fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw;
- Yn meddwl bod pobl yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch;
- Bod yn wryw;
- Bod ag iechyd da iawn yn gyffredinol;
- Byw yn ardal llai difreintiedig⁴¹;
- Ddim yn wynebu amddifadedd materol;
- Peidio â bod yn unig⁴²;
- Byw mewn ardal brin ei phoblogaeth⁴³.

Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn effeithio ar y tebygrwydd o deimlo'n ddiogel, ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Tra bod y dadansoddiad yn cadarnhau ychydig o'r traws-ddadansoddiad a drafodwyd yn gynharach yn y bennod, nad oedd math yr aelwyd, ethnigrwydd, lefel y cymhwyster a chyfeiriadedd rhywiol wedi ymddangos fel ffactorau arwyddocaol. Canfuwyd y cysylltiadau cryfaf â theimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu lle'r oedd pobl yn fodlon iawn â'u hardal leol fel lle i fyw a lle'r oeddent yn cytuno'n gryf fod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch.

⁴⁰ Dangosydd 25, [Dangosyddion Cenedlaethol Cymru](#)

⁴¹ Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: gweler [Termau a diffiniadau](#)

⁴² Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#).

⁴³ Gweler Ardal adeiledig yn [Termau a Diffiniadau](#)

Gwasanaethau awdurdodau lleol

Mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am wasanaethau gan gynnwys goleuadau stryd, cynnal a chadw ffyrdd, gofalu am yr henoed, tai, casglu sbwriel ac ailgylchu. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan hanfodol bwysig ym mywydau pob dydd pobl Cymru.

Mae papur gwyn Llywodraeth Cymru [Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad](#) yn gosod cynlluniau ar gyfer perthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, a phwyslais ar fwy o weithio rhanbarthol. Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn darparu gwaelodlin bwysig o ran monitro gwasanaethau cyhoeddus, ac yn ein helpu i ddeall y ffordd y mae newidiadau i drefniadau llywodraeth leol yn effeithio ar ddinasyddion. Mae'r data hefyd yn darparu tystiolaeth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth weithredu [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)⁴⁴.

Yn 2016-17, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys pedwar datganiad yn ymwneud â gwasanaethau awdurdodau lleol ac yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno.


- Mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Mae fy nghyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut mae'n perfformio.
- Mae fy nghyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol.
- Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol.

Diffiniwyd 'ardal leol' fel yr ardal o fewn 15 i 20 munud o bellter cerdded i'r cartref.

Roedd y cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol mewn blynyddoedd blaenorol ac mae Siart 31 yn dangos y canlyniadau ar gyfer 2014-15 o'i gymharu â 2016-17.

⁴⁴ [Dangosyddion Cenedlaethol](#)


Siart 31: Cytuno â phob datganiad, fesul blwyddyn



Roedd 48% o bobl yn cytuno (cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno) bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn 2016-17, o gymharu â 53% yn 2014-15. Yn 2016-17 roedd cyfran is o bobl yn cytuno bod eu cyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut mae'n perfformio; 33% o gymharu â 37% yn 2014-15. Roedd 35% o bobl yn 2016-17 yn meddwl bod eu cyngor yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wella'r ardal leol, cyfran debyg i 2014-15. O gymharu â 2014-15, roedd llai o bobl yn 2016-17 yn cytuno bod modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol: 20% yn 2016-17 a 21% yn 2014-15.

Mae Siart 32 yn dangos canran y bobl oedd yn cytuno â phob datganiad yn ôl oedran. Nid yw'r berthynas ag oedran yr un fath ar gyfer pob datganiad. O ran 'darparu gwasanaethau o ansawdd uchel' a 'gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol', y rhai rhwng 45 a 64 oed oedd y lleiaf tebygol i gytuno â'r datganiadau hyn, gyda phobl ifanc (16 - 24 oed) a phobl hŷn (75 oed a throsodd) yn fwy tebygol o gytuno. Mae cytuniad â'r datganiad 'mae fy nghyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut mae'n perfformio' yn amrywio o 23% o'r rhai 16 - 24 i 46% o'r rhai 75 oed a throsodd. Fodd bynnag, nid oedd cytuno â'r datganiad 'Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol' yn amrywio yn ôl oedran.

Siart 32: Cytuno â phob datganiad, yn ôl oedran




Mae canlyniadau 2016-17 ar gyfer pob un o'r pedwar datganiad yn cael eu trafod yn eu tro isod.

Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel

Gan edrych ar y ffordd y mae'r canlyniadau'n amrywio yn ôl awdurdod lleol, mae Siart 33 yn dangos mai pobl Conwy yw'r mwyaf tebygol o gytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (61%) tra mai rhai Blaenau Gwent oedd y lleiaf tebygol o gytuno (24%). Efallai bod yr amrywiad hwn yn sgil ffactorau tu hwnt i'r awdurdod lleol ei hun, ee nodweddion y boblogaeth sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Bydd angen dadansoddiad manylach er mwyn gweld a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Siart 33: Cytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, yn ôl awdurdod lleol



Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)⁴⁵ yn fesur o amddifadedd ardal. Roedd lefelau'r rhai oedd yn cytuno â'r datganiad 'Mae fy nghyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel' yn uwch mewn ardaloedd llai difreintiedig. Roedd 55% o'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn fwy tebygol o gredu bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel o gymharu â 41% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig⁴⁶.

Aelwydydd pensiynwyr sengl oedd y grŵp mwyaf tebygol o gytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (54%), ac aelwydydd rheini sengl oedd y lleiaf tebygol o gytuno

⁴⁵MALIC: gweler [Termau a diffiniadau](#)

⁴⁶Gall ardaloedd gael eu graddio yn ôl sgôr amddifadedd MALIC; yr ardaloedd "lleiaf difreintiedig" yma yw'r 20% o ardaloedd â'r sgôr amddifadedd isaf, a'r "mwyaf difreintiedig" yw'r 20% â'r sgôr uchaf. gweler [Termau a diffiniadau](#).

(44%). Roedd 50% o'r rhai sy'n byw mewn llety rhent preifat yn cytuno â'r datganiad, o gymharu â 43% o'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol.

Yn olaf, roedd barn am wasanaethau yn gysylltiedig â llesiant meddyliol. Roedd Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh yn rhan o'r arolwg i roi gwybodaeth am lesiant meddyliol. Gofynnwyd cyfres o ddatganiadau i'r ymatebwyr, ac ar sail eu hatebion rhoddwyd sgôr rhwng 14 (llesiant meddyliol isaf) a 70 (llesiant meddyliol uchaf) iddynt. Roedd y rhai â sgôr is na'r cyfartaledd (rhwng 14 a 44) yn llai tebygol o gytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (40%) o gymharu â'r rhai â llesiant meddyliol uwch na'r cyfartaledd (sgôr rhwng 58 a 70) a oedd yn fwy tebygol o gytuno (56%).

Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr ateb cyfres o gwestiynau am unigrwydd.⁴⁷ Roedd pobl a oedd yn teimlo'n unig yn llai tebygol o gytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (38%) na'r rhai nad oeddent yn unig (54%).

Cyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut mae'n perfformio

Roedd y rhai cyflogedig yn llai tebygol o gytuno bod eu cyngor yn dda am gyfathrebu ynghylch perfformiad (29%) na'r rhai economaidd anweithgar (39%). Roedd 34% o'r rhai di-waith yn cytuno bod eu cyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut mae'n perfformio.

Fel y farn am ansawdd gwasanaethau, pobl Conwy oedd fwyaf tebygol o gytuno bod y cyngor yn dda am roi gwybod i bobl leol sut mae'n perfformio (48%). Roedd 45% o bobl Torfaen yn cytuno. Pobl Ynys Môn oedd y lleiaf tebygol o gytuno (21%), yn cael eu dilyn gan 24% o'r rhai sy'n byw ym Mlaenau Gwent.

Ymddengys fod cysylltiad hefyd rhwng amddifadedd materol aelwydydd a chytuno bod y cyngor yn rhoi gwybod i bobl pa mor dda mae'n perfformio. Roedd 27% o'r rhai sy'n dioddef amddifadedd materol aelwydydd yn debygol o gytuno, o gymharu â 34% nad oeddent mewn amddifadedd materol.


Cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol

Roedd pobl y Gogledd yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol: gyda 53% o bobl Conwy yn cytuno, a 46% yn Sir Ddinbych. Gwelwyd patrwm ymateb tebyg i'r ddau ddatganiad blaenorol, gyda'r bobl lleiaf tebygol o gytuno bod y cyngor yn gwella'r ardal leol yn byw yn Ynys Môn (24%) a Blaenau Gwent (25%). Roedd y rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad (37%) na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (32%).

Mae Siart 34 yn dangos y cysylltiad rhwng cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol a boddhad ag ardal leol fel lle i fyw. Roedd 57% o'r bobl a oedd yn cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol hefyd yn fodlon iawn â'r ardal fel lle i fyw. Roedd 7% o'r rhai oedd yn cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol fodd bynnag dim yn fodlon gyda'r ardal leol fel lle i fyw.

⁴⁷ Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#) – gweler [termau a diffiniadau](#)

Siart 34: Cytuno bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol, yn ôl boddhad ag ardal leol fel lle i fyw.




Dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol

Roedd canrannau'r bobl sy'n teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau am eu hardal leol yn amrywio yn ôl sut yr oeddent yn teimlo am fyw yn eu hardal leol. Roedd y rhai oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn perthyn i'w hardal leol yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol (26% yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau), o gymharu â'r rhai sy'n anghytuno'n gryf eu bod yn perthyn i'r ardal leol (8% yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau).

Mae Siart 35 yn dangos bod cysylltiad rhwng pa mor gryf mae pobl yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau a faint maen nhw'n cytuno bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch. Roedd 37% o'r rhai oedd yn cytuno eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal hefyd yn cytuno'n gryf bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch (ond roedd 6% yn anghytuno).

Siart 35: Cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau mewn ardal leol, yn ôl lefel cytuno bod pobl yn trin ei gilydd ag urddas a pharch



Roedd pobl â salwch cyfyngus hirdymor yn llai tebygol o gytuno bod modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol (17%) na'r rhai heb salwch hirdymor (22%). Roedd dadansoddiad hefyd yn dangos cysylltiad rhwng iechyd cyffredinol a theimlo bod modd dylanwadu ar benderfyniadau. Yn yr un modd, roedd y rhai mewn iechyd da neu dda iawn yn gyffredinol (22%) yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau mwy na'r rhai mewn iechyd gwael neu wael iawn (14%).

Roedd y rhai â'r lefelau uchaf o gymwysterau⁴⁸ yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau (24%) na'r rhai heb gymwysterau (17%).

Mae adroddiad arall, wedi'i seilio ar ganlyniadau arolwg 2014-15, yn edrych mewn mwy o ddyfnder ar ba ffactorau sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod pobl yn teimlo o bosib nad oes modd iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau. Defnyddiwyd techneg ystadegol⁴⁹ i adnabod y prif ffactorau sy'n gysylltiedig gyda'r ffaith bod pobl yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol neu beidio, gan reoli ar gyfer amrywiol ffactorau eraill. Mae'r adroddiad llawn ar gael i'w weld [yma](#).

⁴⁸ Cymwysterau: gweler [Termau a diffiniadau](#)


⁴⁹ Gelwir y dull hwn yn [atchweliad](#). Ceir gwybodaeth am y dull a ddefnyddir yn yr [adroddiad technegol](#).

Cynghorydd lleol

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol hefyd yn gofyn cyfres o gwestiynau am gynghorwyr lleol pobl. Gofynnwyd y cwestiynau hyn hefyd yn 2014-15. Roedd 16% o'r bobl wedi cysylltu â chynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf gydag ymholiad, cwyn neu broblem, o gymharu â 12% yn 2014-15.

Mae Siart 36 yn dangos yn y ddwy flynedd honno mai'r rhai 16-24 oed oedd y lleiaf tebygol o gysylltu â chynghorydd lleol (8% yn 2016-17, 5% yn 2014-15) o gymharu â grwpiau oedran eraill. Y rhai 65-74 oed oedd fwyaf tebygol o gysylltu â'u cynghorydd y ddwy flynedd honno (20% a 18% yn eu tro), ac yna'r rhai 45-64 oed. Er y gwelwyd cynnydd ar gyfer pob grŵp oedran yn y gyfran sy'n cysylltu â'u cynghorydd lleol yn 2016-17 o gymharu â 2014-15, roedd hyn dim ond yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer 25-44 a 45-64 oed.⁵⁰


Siart 36: Cysylltu â chynghorydd lleol, yn ôl oedran a blwyddyn



Roedd pobl yn fwy tebygol o gysylltu â chynghorydd lleol os oeddent yn byw mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr (17%) neu dai cymdeithasol (17%) nag os oeddent yn byw mewn llety rhent preifat (13%). Aelwydydd pensiynwyr priod oedd yr aelwydydd mwyaf tebygol i gysylltu â chynghorydd lleol (21%); aelwydydd pensiynwyr sengl oedd y lleiaf tebygol o gysylltu â chynghorydd lleol (15%). Fodd bynnag, yn gyffredinol, ychydig o amrywiaeth sydd rhwng y mathau o aelwydydd.

⁵⁰ Gweler adran [gwahaniaethau arwyddocaol](#) o [Gwybodaeth Ansawdd Allweddol](#) am fwy o wybodaeth.

Siart 37: Cysylltu â chynghorydd lleol, yn ôl awdurdod lleol



Mae Siart 37 yn dangos amrywiaeth ar draws awdurdodau lleol o ran cyfran y bobl sy'n cysylltu â chynghorydd lleol. Pobl Sir Fynwy a Chasnewydd oedd y lleiaf tebygol o fod wedi cysylltu â'u cynghorydd o fewn y 12 mis diwethaf (10% yr un), o gymharu â 24% o bobl Castell-nedd Port Talbot a 23% o bobl Wrecsam. Fel y trafodwyd yn gynharach, gall yr amrywiad hwn fod yn sgil ffactorau tu hwnt i'r awdurdod lleol ei hun, fel nodweddion y boblogaeth sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.

Roedd 19% o bobl â chymwysterau lefel gradd ac uwch wedi cysylltu â chynghorydd, o gymharu â 14% o'r rhai heb gymwysterau. Hefyd roedd y rhai oedd yn fodlon iawn yn gyffredinol gyda chyflwr addysg yng Nghymru yn llai tebygol o gysylltu â chynghorydd (16%, o gymharu â 22% o'r rhai oedd â boddhad isel yn gyffredinol gyda chyflwr addysg ac wedi cysylltu â chynghorydd).

Yn yr un modd, roedd y rhai oedd yn fodlon iawn yn gyffredinol â gwasanaethau iechyd Cymru yn llai tebygol o gysylltu â chynghorydd (14%) na'r rhai â boddhad isel (21%). Roedd iechyd hefyd yn ffactor: roedd y rhai â salwch cyfyngus hirdymor, anabledd neu wendid yn fwy tebygol o gyfathrebu

gyda'u cynghorydd lleol (19%, o gymharu â 15% oedd wedi cysylltu â chynghorydd heb salwch hirdymor).

O'r rhai oedd wedi cysylltu â chynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf, roedd 56% â dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud dros y gymuned leol. Er eu bod wedi cysylltu â chynghorydd lleol, roedd gwahaniaeth ar draws y grwpiau oedran o ran dealltwriaeth am yr hyn y mae'r cynghorydd yn ei wneud dros y gymuned leol. O'r rhai oedd wedi cysylltu â chynghorydd yn y 12 mis diwethaf, roedd 39% o'r rhai 16-24 oed â dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud, o gymharu â 58% o'r rhai 45-64 oed a 68% o'r rhai 75 oed a throsodd.

Roedd 26% o'r rhai oedd wedi cysylltu â chynghorydd yn y 12 mis diwethaf yn cytuno bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol. Pobl Ynys Môn oedd y lleiaf tebygol o gredu bod eu cynghorydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned (37% o'r rhai a oedd wedi cysylltu â chynghorydd), o gymharu â 72% yng Ngheredigion.

Dadansoddiad pellach - Cysylltu â chynghorwyr lleol

Yn ogystal â pherthynas rhwng oedran y person a'r ffaith a oeddent wedi cysylltu â chynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf, mae lefel y cysylltiad gyda chynghorwyr hefyd yn amrywio fesul ardal awdurdod lleol a deiliadaeth tai.

Fodd bynnag, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, mae gan rai ardaloedd fwy o dai cymdeithasol nag eraill). I gael dealltwriaeth glir o effaith ffactor unigol, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol i wahanu effeithiau ffactorau penodol ar y ffaith a yw unigolyn wedi cysylltu â chynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf. Bydd y dulliau hyn yn caniatáu i ni edrych ar effaith un ffactor gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson (sef rheoli ar gyfer ffactorau eraill).

Canfuwyd bod pobl â'r nodweddion canlynol yn fwy tebygol o gysylltu â chynghorydd lleol, ar ôl rheoli ar gyfer amrywiol ffactorau eraill:

- Byw yn awdurdodau lleol Ynys Môn a Wrecsam
- Bod yn 45 oed a throsodd;
- Byw ar aelwyd pensiynwyr priod neu aelwyd â phlant;
- Ddim yn teimlo'n ddiogel (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac yn teithio);
- Cytuno'n gryf eu bod yn perthyn i'w hardal leol;
- Anghytuno bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel;
- Bod â salwch cyfyngus hirdymor.

Roedd pob un o'r ffactorau hyn yn cael effaith unigol ar y tebygrwydd o gysylltu â chynghorydd, ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill.

Roedd y dadansoddiad felly'n cadarnhau fod y mannau lle mae pobl yn byw, a'r ffordd y maent yn teimlo am eu hardal yn effeithio ar a ydynt wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol.

Termau a diffiniadau

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) fel y mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na tlodi. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd. Felly, mae MALIC yn seiliedig ar wyth math gwahanol o amddifadedd, Y rhain yw: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Rhennir Cymru yn 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHlau) a cheir tua 1,600 o bobl ym mhob un. Cyfrifwyd graddau amddifadedd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn: rhoddir gradd 1 i'r ACEHI fwyaf difreintiedig, a 1,909 i'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y bwletin hwn, rydym wedi grwpio'r bobl sy'n byw yn yr 20% o ACEHI sydd fwyaf difreintiedig ar sgôr MALIC a'u cymharu â'r 20% o'r ACEHI sydd leiaf difreintiedig. – gweler Amddifadedd materol isod hefyd.

Trefol / gwledig

Mae "trefol" yn cynnwys aneddiadau gyda phoblogaeth o 10,000 neu fwy a threfi bach a'u cyrion, lle mae'r ardal gyfagos ehangach yn fwy prin ei phoblogaeth. Mae "gwledig" yn cynnwys pob ardal arall.

Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn fesur a gynlluniwyd i gofnodi canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol byrdymor.

Gofynnwyd i oedolion nad oeddent yn bensiynwyr a oeddent yn cael 'gwylliau i ffwrdd oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn', a oedd ganddynt 'ddigon o arian i gadw eich cartref wedi ei addurno'n dda', neu a oeddent yn gallu 'cynilo £10 neu fwy y mis yn rheolaidd'. Ffocws y cwestiynau i oedolion oedd a oeddent yn gallu fforddio'r eitemau hyn. Mewn gwirionedd, mae'r eitemau hyn i'w 'haelwyd' yn hytrach nag iddynt yn bersonol, sef pam roeddent yn arfer cael eu galw'n 'amddifadedd materol aelwyd'.

Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol i bensiynwyr megis a oedd eu 'cartref yn cael ei gadw'n ddigon twym', a oedd ganddynt 'fynediad at gar neu dacs, pan oedd angen' neu a oedd eu 'gwallt yn cael ei drin neu ei dorri'n rheolaidd'. Roedd y rhain hefyd yn gofyn a allent eu fforddio, ond roeddent hefyd yn canolbwyntio ar beidio â gallu cael yr eitemau hyn am resymau eraill, megis iechyd gwael, neu neb i'w helpu ac ati. Roedd y cwestiynau hyn yn llai seiliedig ar yr aelwyd ac yn fwy am yr unigolyn.

Rhodddwyd sgôr i'r rhai nad oedd yr eitemau hyn ganddynt. Os nad oedd ganddynt unrhyw eitem ar y rhestr, byddent yn sgorio 100, ac os oedd ganddynt yr eitemau i gyd, byddent yn sgorio 0. Dosbarthwyd pobl nad oeddent yn bensiynwyr a oedd yn sgorio 25 neu fwy'n rhai difreintiedig a dosbarthwyd pensiynwyr a oedd yn sgorio 20 neu fwy'n rhai difreintiedig.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni am yr hyn y gallent ei fforddio i'w plant.

Yn y bwletin hwn, cyfunir mesuriadau o amddifadedd pensiynwyr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr er mwyn darparu newidyn amddifadedd 'oedolion'. Gellir defnyddio'r termau amddifadedd 'oedolion' ac 'aelwydydd' yn gyfnewidiol gan ddibynnu ar y cyd-destun.

Cymwysterau

Mae cymwysterau ymatebwyr wedi cael eu grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF), lle mai lefel 1 yw'r lefel isaf o gymwysterau a lefel 8 yw gradd ddoethurol neu gyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, mae ymatebwyr wedi cael eu grwpio'n 5 grŵp. Mae'r rhai heb gymwysterau yn y categori isaf ac mae ymatebwyr â chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymwysterau uchaf. [Mwy o wybodaeth am lefelau'r NQF](#).

Er mwyn rhoi disgrifiadau mwy ystyrlon o'r cymwysterau, defnyddiwyd y disgrifiadau byr hyn yn y bwletin hwn.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Disgrifiad a ddefnyddir yn y bwletin
Lefelau 4-8 yr NQF	Lefel gradd neu uwch
Lefel 3 yr NQF	Safon Uwch a chyfwerth
Lefel 2 yr NQF	Graddau A i C TGAU a chyfwerth
Is na Lefel 2 yr NQF	Gradd TGAU is nag C
Dim cymwysterau	Dim cymwysterau

Unigrwydd

Gellir defnyddio dulliau mesur amrywiol ar gyfer unigrwydd er mwyn dadansoddi data ond mae'r Arolwg Cenedlaethol yn defnyddio De Jong Gierveld. Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#) – gweler [Termau a diffiniadau](#). Ar gyfer y raddfa hon, dangoswyd cyfres o 6 datganiad i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt nodi i ba raddau yr oedd pob datganiad yn berthnasol i'w teimladau. Roedd 3 o'r datganiadau am 'unigrwydd emosiynol (EL)' a 3 am 'unigrwydd cymdeithasol (SL)'.

1. Rwy'n profi teimlad cyffredinol o wacter (EL)
2. Rwy'n gweld eisiau cael pobl o gwmpas (EL)
3. Rwy'n teimlo'n wrthodedig yn aml (EL)
4. Mae digon o bobl y gallaf ddibynnu arnynt pan fo gen i broblemau (SL)
5. Rwy'n medru ymddiried yn llwyr mewn nifer o bobl (SL)
6. Rwy'n teimlo'n agos at ddigon o bobl (SL)

Mae'r raddfa'n defnyddio tri chategori ymateb: **Ydw / Mwy neu lai / Na** – caiff yr atebion niwtral a chadarnhaol eu sgorio fel "1" ar y cwestiynau sydd â geiriad negyddol (yn yr achos hwn, cwestiynau 1-3). Ar gyfer y datganiadau sydd â geiriad cadarnhaol (cwestiynau 4-6), caiff yr atebion niwtral a negyddol eu sgorio fel "1". Golyga hyn bod ateb 'mwy neu lai' yn cael yr un sgôr ag ateb 'ydw' neu 'na', yn dibynnu ar y cwestiwn.

Caiff sgoriau'r cwestiynau eu cyfuno i roi mesur unigrwydd cyffredinol. Mae hyn yn rhoi ystod posibl i'r sgoriau rhwng 0 a 6, **0 yw'r lleiaf unig a 6 yw'r mwyaf unig**. At ddibenion adrodd yn y bwletin hwn rydym wedi ystyried bod pobl sydd â sgôr rhwng 4 a 6 yn unig.

Statws economaidd

Cafodd yr ymatebwyr eu dosbarthu i'r tri statws economaidd canlynol yn ôl sut yr oeddent yn disgrifio'r hyn yr oeddent wedi'i wneud dros y 7 diwrnod blaenorol.

Cyflogedig	Di-waith	Economaidd anweithgar
- Mewn unrhyw gyflogaeth am dâl neu hunangyflogaeth (neu i ffwrdd dros dro) - Ar gynllun hyfforddi dan nawdd y llywodraeth - Yn gwneud gwaith di-dâl i fusnes eich hun neu eich perthynas - Aros i ddechrau swydd gyflogedig rydych eisoës wedi'i chael	- Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith - Yn bwriadu chwilio am waith ond methu â gwneud hynny dros dro oherwydd salwch neu anaf (28 diwrnod neu lai)	- Myfyriwr amser llawn (gan gynnwys ar wyliau) - Methu gweithio oherwydd salwch neu anabled hirdymor - Wedi ymddeol - Yn gofalu am deulu neu'r cartref - Yn gwneud rhywbeth arall

Ardal adeiledig

Rydym wedi categorio'r ymatebwyr yn ôl maint yr anheddiad maent yn byw ynddo, o'r ardal fwyaf gwledig, lle mae llai na 2,000 o bobl yn yr anheddiad, i'r ardaloedd trefol mwyaf poblog lle mae dros 100,000 o bobl yn yr anheddiad.

Roedd y 5 band anheddiad i gyd yn cynnwys tua'r un faint o bobl:

- Llai na 2,000
- 2,000 i 9,999
- 10,000 i 24,999
- 25,000 i 99,999
- o leiaf 100,000

Cafod y band lleiaf ei rannu'n llai eto i roi syniad o ardal wledig "hygyrch" ac ardal wledig "anghysbell". Yn draddodiadol, caiff aneddiadau â phoblogaeth o 10,000 neu ragor eu diffinio fel ardaloedd "trefol". Caiff ardal adeiledig ei diffinio fel tir o ddim llai na 20 hectar (200,000 metr sgwâr), a chaiff unrhyw anheddiad o fewn 200 metr i un arall eu cysylltu.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y caiff yr ardaloedd hyn eu diffinio yn yr [erthygl ystadegol](#) hon.

Gwybodaeth allweddol o ansawdd

Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod 2016-17 (30 Mawrth 2016 – 31 Mawrth 2017).

Tynnwyd sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol, lle cynhwyswyd yr holl gyfeiriadau preswyl a'r mathau o anheddau yn y broses ddewis samplau ar yr amod eu bod wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol. Os oeddent wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, cynhwyswyd cartrefi parc preswyl ac anheddau eraill yn y ffrâm samplu, ond nid yw sefydliadau cymunedol megis cartrefi gofal a barics byddin ar y PAF, felly ni chawsant eu cynnwys.

Roedd sampl yr Arolwg Cenedlaethol yn 2016-17 yn cynnwys 21,666 o gyfeiriadau a ddewiswyd ar hap o'r PAF. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16 oed a throsodd) ar hap yn yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb 45 munud o hyd ag ef, a oedd yn gofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arno a'i ardal leol. Cynhaliwyd cyfanswm o 10,493 o gyfweiliadau.

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau a ddyfynnir yn y bwletin hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Dim ond i is-sampl o ymatebwyr y gofynnwyd am rai pynciau yn yr arolwg ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill lle nad oeddent yn berthnasol i'r ymatebydd. Gall atebion coll hefyd ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys amharodrwydd neu anallu i ateb cwestiwn penodol.

Lle nodwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu mai cydberthynas achosol ydyw. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn nodi a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

Adroddiad ansawdd

Mae [Adroddiad Ansawdd](#) cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg, sy'n cynnwys perthnasedd, cywirdeb, amseroldeb a phrydlondeb, hygyrchedd ac eglurder, cymaroldeb a chydlyniaeth y data. Mae'n cynnwys crynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau hefyd.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i ryw faint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl

y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Cynhwysir cyfyngau hyder yn nhablau canlyniadau'r arolwg a gyhoeddir ar StatsCymru.

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir ymhellach yn adroddiad ansawdd yr arolwg.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol (yn yr un flwyddyn), rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o'i gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir llawer o gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei bod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yw'n ei dileu).

Pan gaiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

Dadansoddiad atchweliad

Ar ôl ystyried canlyniadau'r arolwg, ymgorfforwyd ffactorau a ystyriwyd gennym yn debygol o ddylanwadu ar boddhad ag ardal lleol, cydlyniant cymunedol, diogelwch cymunedol a cysylltu â cynghorydd yn y modelu atchweliad. Roedd y modelu terfynol yn cynnwys y ffactorau hynny sy'n aros yn arwyddocaol hyd yn oed ar ôl cynnal y ffactorau eraill yn gyson. Mae'r ffactorau arwyddocaol hyn yn cael eu trafod yn y bwletin hwn.

Mae mwy o fanylion ar y ffordd y lluniwyd y dadansoddiad atchweliad yn yr adroddiad hwn, ac ar y model atchweliad, ar gael yn yr [Adroddiad Technegol: Dull o weithredu dadansoddiad atchweliad a'r modelau a gynhyrchwyd](#).

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swydddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swydddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swydddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swydddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiaid â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiaid â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016 ac mae'r bwletin hwn yn cynnwys 4 o'r dangosyddion cenedlaethol sef 23, 25, 26 and 27. Trafodir y rhain yn y bennod sy'n dwyn y teitl 'Cymru o gymunedau cydlynus' o fewn yr adroddiad [Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – [Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrdau gwasanaethau lleol pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r bwletin hwn ar gael yn:

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy>

Cafodd [datganiad cyntaf](#) yr arolwg ei gyhoeddi ar 29 Mehefin 2017.

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn [adroddiad technegol](#) yr arolwg.

Diweddariad nesaf

Ddim yn gyhoeddiad rheolaidd

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bostio arolygon@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

